

CATALYST CYMRU: EHANGU GORWELION PECYN CYMORTH



Paratowyd gan
HISTORY VENTURES



0300 111 0124



help@wcva.cymru

Rhagair



Rhoddodd prosiect Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion gymorth i fudiadau treftadaeth micro, bach a chanolig neu fudiadau sy'n rhedeg prosiect treftadaeth ehangu eu ffrydiau incwm a chyrraedd cynulleidfaoedd a phobl newydd.

Wedi'i chyllido gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rhedodd CGGC raglen Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion mewn partneriaeth â mudiad Cwmpas. Cefnogwyd y prosiect hefyd gan Dîm Cefnogi Ieuentid Ethnig, Anabledd Cymru, a Pride Cymru.

Gwnaeth y prosiect ddarparu cymorth o dan bedwar llinyn:

- Cymorth hyfforddiant manwl ar bynciau megis llywodraethu, cynllunio busnes, a chynhyrchu incwm i helpu i wella gwydnwch a'r gallu i ymdrin â newid.
- Rhaglen hyfforddi wedi'i chyflwyno gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a oedd yn ymdrin â phynciau megis Arweinyddiaeth Arloesol, Ailfeddwl Ffrydiau Incwm a dangos effaith gymdeithasol.
- Gweithgareddau ehangu rhwydwaith a gynlluniwyd ar y cyd â'r Tîm Cefnogi Ieuentid Ethnig, Pride Cymru, ac Anabledd Cymru i gefnogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn treftadaeth.
- Grantiau Cymunedol i fudiadau treftadaeth neu fudiadau sy'n ymgymryd â phrosiect treftadaeth.

Mae'r pecyn cymorth etifeddol hwn wedi'i ddatblygu ar sail gwersi a ddysgwyd o'r gweithgareddau ehangu rhwydweithiau i gefnogi gwaith mudiadau eraill ar gynyddu amrywiaeth o fewn eu gwaith. Er mai astudiaethau achos o fudiadau treftadaeth sydd yn y pecyn cymorth hwn, mae hwn yn adnodd i bob mudiad sydd eisiau ehangu eu rhwydweithiau a'u gorwelion.

Gobeithio bydd yr adnodd hwn o fudd i chi ac y byddwch chi'n gallu cymhwyso rhai o'r gwersi a ddysgwyd ym mhrosiect Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion yn eich mudiad eich hun.

Tîm Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion
CGGC

Rhagair gan CGGC

Rhagair gan CGGC

1.0. Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

2.0. Astudiaethau Achos

a. Ymddiriedolaeth St John's House, Pen-y-bont ar Ogwr – Datrys problemau mynediad mewn modd deallus

b. Circus Eruption Abertawe - Fideo yn egluro'r safle parhaol

c. Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn, Abergwili – Cynnwys pobl ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn y gymuned

d. Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig Caernarfon - Gwella ymgysylltiad cefnogwyr trwy borth

e. Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni - Gwella ymgysylltiad gwirfoddolwyr

f. Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli - Dod yn fwy cynhwysol i ymwelwyr heb lawer o symudedd

g. Canolfan Glowyr Caerffili, "The Miners" Caerffili - Digwyddiadau treftadaeth aml-genhedlaeth

h. Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru, Caerdydd - Ymgysylltu trwy daith addysgol

i. Tir Coed Aberystwyth, Gwneud gwefan yn fwy hygyrch

Ymddiriedolaeth Wilderness Llanidloes - Gwella hygyrchedd y ganolfan

j. Clwb Chwaraeon RFC Bryncoch, Castell-nedd - Prosiect coffa ac addysg dreftadaeth

3.0. Pethau a weithiodd a datrysiadau poblogaidd

4.0. Cynllun Her (3 rhan I/II/III)

4.1. Sut i ddefnyddio'r Cynllun Her yn effeithiol

4.2. Templed eich cynllun her

4.3. Gwneud addewid atebolrwydd a ffurflen addewid atebolrwydd

5.0 Cysylltu ag CGGC am help a chyngor

1.0. Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn



Nod yr adnodd hwn yw dangos i chi'r amrywiaeth eang o ffyrdd y gallech amrywio eich cynulleidfa ac ehangu eich rhwydweithiau. Mae nifer o astudiaethau achos wedi'u cynnwys sy'n amlygu sut mae mudiadau ledled Cymru wedi mynd i'r afael â'u hamgylchiadau penodol gyda chreadigrwydd a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar nodau.

Bydd ehangu eich rhwydweithiau ac amrywio eich cynulleidfa yn helpu gyda chynaliadwyedd eich mudiad ac yn dod â llawenydd i'ch ymwelwyr neu wirfoddolwyr newydd. Mae'n fuddiol i'r mudiadau yn ogystal â'r gynulleidfa gynyddol a gall eich gwaith adlewyrchu hynny. Mae llawer o'r astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn tynnu sylw at yr effaith y mae'n ei chael ar bob ochr heb golli brwdfrydedd, cyfeiriad, na chalon y mudiad neu'r prosiect.

Rwy'n gobeithio y bydd astudiaeth achos yn cael ei chynnwys y gallwch uniaethu â hi'n uniongyrchol ac felly dysgu ohoni. Ond, byddwn yn eich annog i edrych ar yr holl broffiliau sydd o ddiddordeb i chi fel ymarferiad dysgu. Oherwydd, er na all pob astudiaeth achos fod yn uniongyrchol berthnasol i amgylchiadau a nodau unigryw eich mudiad, rwy'n gobeithio y bydd yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Gallent:

- Danio eich dychymyg a'ch helpu i ddatrys problemau mewn modd creadigol
- Amlygu rhwystrau i gynhwysiant nad oeddech yn ymwybodol ohonynt o bosibl
- Dangos yr amrywiaeth eang o ffyrdd y gallech ehangu eich rhwydwaith ac amrywio eich cynulleidfa, gwirfoddolwyr, neu staff
- Rhoi awgrymiadau a all weithiau fod yn amwys neu'n gyffredinol mewn cyd-destun mwy penodol a all fod yn berthnasol i chi
- Eich ysbrydoli! Mae rhai syniadau wedi'u cynnwys nad oeddech o bosibl wedi'u hystyried o'r blaen

Mae cynllun her ar ddiwedd y pecyn cymorth a fydd yn helpu i strwythuro eich syniadau wrth i chi symud ymlaen ac yn sicrhau eich bod yn parhau i fod yn atebol ac yn canolbwyntio ar eich nod terfynol. Gobeithio y byddwch yn gallu ymgorffori'r hyn y byddwch chi'n ei ddysgu o'r astudiaethau achos yn y cynllun. Peidiwch â theimlo'n gaeth i'r strwythur - mae'r cynllun a'r holl becyn cymorth i chi ei ddefnyddio a'i addasu i'ch anghenion a'ch amgylchiadau eich hun. P'un a oes gennych broblem benodol yr hoffech ei datrys, fel angen rampiau i wella mynediad ffisegol, neu nod llawer ehangach fel denu cynulleidfa fwy amrywiol, byddwch chi'n siŵr o ddysgu rhywbeth o'r pecyn cymorth hwn hyd yn oed os bydd y pethau y bydd pawb yn eu dysgu yn edrych ychydig yn wahanol.

Diolch i'r holl fudiadau a gyfrannodd at y pecyn cymorth. Mae eich ymrwymiad i'ch gwaith, nad oedd yn syml ar brydiau ac weithiau'n rhwystredig i'w gwblhau, yn ysbrydoledig. Mae'n dangos pa mor fuddiol y gall ehangu eich gorwelion a'ch rhwydweithiau fod i bawb.

a. Datrys problemau mynediad mewn modd deallus

Ymddiriedolaeth St John's House

Pen-y-bont ar Ogwr

Catalydd
Catalyst Cymru



✉ saintjohns@hotmail.com.uk

🌐 <https://stjohns-bridgend.org.uk/>

Mae St John's House yn adeilad Tuduraidd o'r 16eg ganrif sy'n defnyddio porthiant fideo byw ymarferol i arddangos lloriau uwch anhygyrch

DISGRIFIAD HER LLAWN

Deilliodd yr angen am y prosiect o'r heriau hygyrchedd roedd St John's House yn eu hwynebu, a oedd yn atal yr henoed ac ymwelwyr â galluoedd gwahanol rhag cael y profiad llawn. Mae gan yr adeilad hwn risiau hanesyddol ond anodd eu llywio. Roedd yn rhaid i dîm St John gynnal natur hanesyddol yr adeilad, ond roeddent hefyd eisiau i bobl allu symud o'i gwmpas a'i fwynhau. Mae Sarah Jones, Cydlynnydd y Prosiect, yn gweld pwysigrwydd mynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn gwneud yr adeilad hanesyddol yn fwy cynhwysol a rhyngweithiol. Mae'r gweithgareddau arfaethedig yn cynnwys creu fideo sy'n dangos nodweddion y lloriau uchaf a gosod system ffrwd fideo fyw fel y gall pobl weld yr ardaloedd na allant eu cyrraedd mewn amser real. Mae cynnwys gwirfoddolwyr wrth weithredu'r cyfleusterau hyn yn ychwanegu at agwedd ymgysylltiad cymunedol y prosiect.

HERIAU

- Sut i wneud adeilad hanesyddol gyda grisiau anhygyrch yn gynhwysol ar gyfer yr henoed a'r anabl
- Cynhyrchu system fideo porthiant treigl a byw

ATEBION

Defnyddiodd tîm St John's House 3 phrif ddull o oresgyn eu heriau



**Adborth
Ymwelwyr**



**Technoleg
Newydd**



**Meddwl yn
greadigol**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Datrys problemau'n greadigol a meddwl y tu allan i'r bocs i ddod o hyd i ffyrdd o alluogi'r henoed, pobl â phroblemau symudedd, ac ymwelwyr eraill i weld y rhannau o'r adeilad na ellid eu cyrraedd. Cafodd hyn ei gyflawni drwy osod fideo ffrwd fyw o'r ardaloedd na ellid eu cyrraedd a fideo treigl ar y sgrin.

2

Cam 2

Ar gyfer yr ymwelwyr hynny nad ydynt yn gallu cyrraedd y llawr uchaf gyda'u parti, mae gwirfoddolwr penodol yno bellach sydd â'r dasg o sicrhau bod eu profiad yn parhau drwy ddefnyddio fideo a phwysleisio eu gwerth fel ymwelydd y maen nhw'n ei groesawu'n fawr.

3

Cam 3

Defnyddiodd tîm St John's House dri phrif ddull o oresgyn eu heriau.

“[Dysgwyd ni] i ymgysylltu â'n hymwelwyr am yr heriau y gallant eu cael fel y gallwn roi'r profiad gorau iddynt yn St John's House.”



b. Ffilmiau byr yn amlygu treftadaeth

Circus Eruption

Cwmbwrla, Abertawe



✉ youthcircus@circuseruption.co.uk

🌐 <http://www.circuseruption.co.uk/our-new-building>

Ffilm fer yn dangos taith Circus Eruption i sicrhau cartref parhaol ar gyfer eu gwaith ieuencid seiliedig ar sgiliau syrzas

DISGRIFIAD HER LLAWN

Mae Circus Eruption o Abertawe yn defnyddio sgiliau syrzas fel sail eu gwaith gyda phobl ifanc. Gwnaeth deall yr angen i wella eu marchnata eu hunain arwain at gynhyrchu ffilm fer i esbonio a dangos taith adfer eu hadeilad a'u cynlluniau at y dyfodol. Mae'r fenter yn deillio o ymrwymiad i wella cyfathrebu digidol ac ymgysylltu ynghylch datblygiad eu hadeilad. Gan gydnabod nad oedd digon o bresenoldeb ar-lein na deunydd ymgysylltu, nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r bwlch hwn i gynyddu cyfranogiad cymunedol a chynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â'r adeilad. Cynhyrchodd Circus Eruption naratif llawn perswâd am eu cynnydd a'u huchelgeisiau am y dyfodol, gan feithrin cysylltiad cryfach â'u cynulleidfa. Cafodd ymrwymiad Circus Eruption i wella eu hymgysylltiad digidol ei wneud mewn modd ymarferol ac mae'n sicrhau cynaliadwyedd eu hymdrechion ymgysylltu cymunedol.

HERIAU

- Sut i wella cyfathrebu ac ymgysylltu digidol ynghylch datblygiad eu hadeilad.
- Sicrhau bod y stori yn cael ei hadrodd mewn ffordd realistig a dyrchafol.

ATEBION

Defnyddiodd tîm Circus Eruption 3 phrif ddull o oresgyn eu heriau



Cyflwyno'n
Dda



Agwedd
"Gallwn Ni"



Meddwl yn
greadigol

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Y cam cyntaf yn yr her hon oedd cydnabod yr angen i wella cyfathrebu digidol mewn modd hawdd ei reoli ond effeithiol. Roedd angen gwneud hyn heb adnoddau parhaus tîm cyfryngau mawr.

2

Cam 2

Yr ail gam i Circus Eruption oedd trafod â'r rhanddeiliaid a chael cefnogwyr allweddol y syniad i gefnogi'r prosiect a chefnogi'r gwaith o'i gyflwyno, o'r dechrau i'r diwedd.

3

Cam 3

Cafodd cynllun clir ar gyfer cael rhywun i gynhyrchu fideo gwerth am arian ei wella'n raddol, gan ganolbwyntio nid yn unig ar wneud y fideo ond ar fesur effaith y fideo ar y gynulleidfa darged.

"Mae un [ffilm] yn dangos 'y stori hyd yn hyn' o sut y gwnaethom ailwampio hen eglwys er mwyn ei defnyddio eto - roedd wedi'i chau a'i gadael i ddirywio am 5 mlynedd cyn i ni ei phrynu - ac achubwyd yr adeilad rhag dirywiad tebygol."



c. Cynnwys Pobl ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Gymuned

Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn

Abergwili, Sir Gaerfyrddin



PARC YR ESGOB
BISHOP'S PARK

✉ enquiries@tywigateway.org.uk

🌐 <https://parcyresgob.org.uk>

Cynnwys cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel ymwelwyr a darpar wirfoddolwyr i Barc yr Esgob

DISGRIFIAD HER LLAWN

Mae Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn Parc a Gerddi Parc yr Esgob yn Abergwili, Sir Gaerfyrddin. Roedd yr Ymddiriedolwyr eisiau estyn allan i'r gymuned ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gyda neges syml – mae croeso i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ymweld â Drws i'r Dyffryn, ymgysylltu â hi a gwirfoddoli yno.

Yr heriau mwyaf i'w goresgyn er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn mynd rhagddo'n llwyddiannus oedd sicrhau bod digon o wirfoddolwyr a gofod ffisegol ar gael. Y ffordd orau ymlaen oedd cysylltu â mudiadau am gymorth. Yn gyntaf, Amgueddfa Sir Gaerfyrddin gyfagos a gynigiodd eu gofod mwy o faint i ni ar gyfer yr ymweliad a'r mudiad cymorth lleiafrifoedd ethnig (EYST) am help i gysylltu'n ystyrlon â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol lleol.

HERIAU

- Gofod annigonol
- Cysylltu â grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Nid yw'r dyddiad cau gwreiddiol yn ymarferol

ATEBION

Defnyddiodd tîm Parc yr Esgob (Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn) 3 phrif ddull o oresgyn eu heriau



Gofod a
fenthycwyd



Partneriaid
Lleol



Agwedd
"Gallwn Ni"

CAMAU A GYMERWYD

Cam 1

1

Roedd angen mwy o le i gynnal y digwyddiad a gynlluniwyd. Gwnaeth gofyn i Amgueddfa gymdogol Sir Gaerfyrddin a ellid defnyddio eu gofod ddatrys yr her ac roedd yn ddatrysiad deallus. Gwnaeth defnyddio'r bartneriaeth leol hon hefyd ganiatáu i'r ymwelwyr edrych o amgylch Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, a oedd yn fuddiol i ymwelwyr a mudiadau fel ei gilydd.

Cam 2

2

Gofyn am gymorth Tîm Cefnogi Ieuencid Ethnig (EYST) i estyn allan i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol Lleol a allai fod â diddordeb mewn ymweld â Pharc yr Esgob neu wirfoddoli gydag ef. Mae hon yn enghraifft wych o ddefnyddio arbenigedd partneriaid i gysylltu â gwahanol gymunedau mewn modd ystyrlon a chreu cydberthynas broffesiynol ag EYST a helpodd i ddatrys problem. Yn yr achos hwn, caniatodd i'r holl ymwelwyr, gan gynnwys ffoaduriaid nad oeddent yn siarad Saesneg, i ymgysylltu'n llawn a mwynhau'r ymweliad.

Cam 3

3

Gan ei fod yn ardd â harddwch naturiol a gerddi muriog, roedd y cynllun gwreiddiol am ddigwyddiad ym mis Awst. Ond oherwydd nifer o oediadau annisgwyl, bu'n rhaid cynnal y digwyddiad ym mis Ionawr yn y pen draw. Gwnaed hyn yn bosibl gyda'r agwedd "gallwn ni". Gwnaeth meddwl yn greadigol ganiatáu i weithgareddau newydd gael eu cynnal yn yr ymweliad a aildefnwyd, fel creu printiadau paent a phlannu blagur pys y gallai'r ymwelwyr fynd adref â nhw. Cafwyd hefyd sesiwn adrodd storïau lle rhannodd ymwelwyr a gwirfoddolwyr straeon am weithio gyda'i gilydd ym myd natur.

"Trwy weithio gydag EYST bu'n bosibl i ni gyrraedd rhan o'r gymuned y byddai wedi bod yn hynod anodd cysylltu ac ymgysylltu â nhw fel arall. Heb y digwyddiad ni fyddem wedi gallu datblygu ein dealltwriaeth o ddiddordebau'r gymuned a'u hanghenion yn yr un modd."



d. Gwella ymgysylltiad cefnogwyr trwy borth

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Caernarfon, Gwynedd

Catalydd
Catalyst Cymru



contact@rwmuseum.wales



rwmuseum.org.uk

Gwella gwerth aelodau trwy 150 darn o gynnwys newydd

DISGRIFIAD HER LLAWN

Roedd gan Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (RWM) yng Nghaernarfon nodau clir iawn ar gyfer eu mudiad - dyblu nifer y cefnogwyr ac ychwanegu 150 o asedau ar-lein hygyrch newydd. Nod hyn oedd gwella ymdrechion codi arian a gwerth drwy greu platfform ar-lein unigryw i'w cefnogwyr, "Cyfeillion Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig." Mae'r platfform hwn yn cynnig mynediad at ddeunyddiau archifol, casgliadau, fideos, podlediadau, a mwy. Y nod yw cynyddu ymgysylltiad aelodau, denu cefnogwyr newydd, a chynnig budd ymarferol i ymuno â'r rhaglen Cyfeillion. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu, Valerie Peacock, yn gweithio gyda chwmni lleol Delwedd sydd â phrofiad cryf gyda'r math hwn o borth aelodaeth.

HERIAU

- Mynediad mwy hawdd ei ddefnyddio i gynnwys
- Sut i ddyblu nifer y cefnogwyr "Cyfeillion".
- Gwella gwerth aelodau trwy 150 darn o gynnwys newydd

ATEBION

Defnyddiodd tîm Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig 3 phrif ddull o oresgyn eu heriau.



**Gwerth+ i
Aelodau**



**Technoleg
Newydd**



**Arbenigedd
Partner**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Cytunodd y Cyfeillion (aelodau) presennol y byddai porth hawdd ei ddefnyddio gyda nodweddion fideo a sain arno yn bwysig iddynt barhau i fod yn Gyfeillion, adnewyddu eu haelodaeth, ac i helpu i recriwtio Cyfeillion newydd ychwanegol.

2

Cam 2

Gwnaeth cysylltu â'r cyflenwr lleol arbenigol, Delwedd, dalu ar ei ganfed. Gwnaethant argymhell porth aelodaeth gan ddefnyddio Flipbook i wella maint y cynnwys ac ansawdd y cyflwyniad. Gwnaeth hyn hefyd ei gwneud hi'n ddeniadol iawn i ddod yn aelod gan fod y pecyn yn cynnig mwy o elfennau a gwerth, a bu'n llwyddiannus.

3

Cam 3

Diweddarau'r mesurau llwyddiant a'r dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) i olrhain yr ymgysylltiad gan gynnwys polau piniwn, gwefan a metrigau cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau eu bod bob amser yn gweithio tuag at nodau penodol. Maen nhw hefyd wedi creu cynllun ar gyfer dyfodol y porth er mwyn parhau i wella'r porth Cyfeillion cynyddol. Hyd yn hyn, mae nifer y Cyfeillion wedi cynyddu o 49 i 109, sydd wedi mynd uwchlaw eu nod gwreiddiol.

“Ers lansio ein grŵp Cyfeillion rydym wedi trafod y porth newydd ac wedi dyblu nifer ein Cyfeillion o 49 i 109!... Rydym wedi gweld mwy o ymgysylltiad â'r safle a mwy o adborth positif gan Gyfeillion.”

FRIENDS OF THE MUSEUM

ABOUT THE FRIENDS

Friends of the RWF Museum support the Museum through volunteering, planning fundraising events, assisting with the goal of resiliency. This is a newly founded group made up of generous, active, and forward-thinking individuals.

BENEFITS OF JOINING FRIENDS OF THE RWF MUSEUM ARE:

- Exclusive Friends of the RWF Digital Newsletter three times a year
- Discounts on RWF Merchandise
- Invitations to special events, exhibitions, and programs
- Recognition on the RWF Museum website
- Free, discounted, or Friend only educational events (online and in-person)
- Access to the Friends Only portal on the website with archive information, online access to collections database, journals, videos, podcasts, and more.

e. Gwella ymgysylltiad gwirfoddolwyr

Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy,
Aberhonddu a'r Fenni (MBACT)



Monmouthshire, Brecon &
Abergavenny Canals Trust



<https://mbact.org.uk/contact-us/>



<https://mbact.org.uk/>

Gosod technoleg Man Gwerthu newydd i wella hygyrchedd ac ymgysylltiad gwirfoddolwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

DISGRIFIAD HER LLAWN

Mae Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni (MBACT) yn ceisio gwella ac adfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu mewn modd cynaliadwy er budd y gymuned leol.

Daeth yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol dros gyfnod o amser bod gwirfoddolwyr, ac yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael y system â llaw o gofnodi gwerthiannau yn gymhleth ac yn heriol i'r pwynt ei fod yn rhwystr i wirfoddoli ei hun.

Gyda chymorth Coleg Gwent, lluniwyd manyleb newydd ar gyfer system Pwynt Gwerthu (PoS). Yn ogystal, cynlluniwyd cynllun hyfforddi ar gyfer y system gyda phwyslais cryf ar wirfoddolwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Gyda chynnig Catalydd Cymru gwreiddiol MBACT, roedd angen cymeradwyo gwaith ychwanegol. Ond dangosodd eu tîm frwdfrydedd a dyfalbarhad, a arweiniodd at lwyddiant ar ôl y siomedigaeth wreiddiol.

HERIAU

- Gosod technoleg Pwynt Gwerthu (Point of Sale) newydd
- Galluogi gwirfoddolwyr ag anghenion ychwanegol i ddefnyddio'r system newydd
- Cael gwared ar yr hen system heriol â llaw

ATEBION

Defnyddiodd tîm MFACT 3 phrif ddull o oresgyn eu heriau.



**Gwerth+ i
Aelodau**



**Technoleg
Newydd**



**Arbenigedd
Partner**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Cymerodd MFACT yr amser i sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y problemau a'r pryderon yr oedd gwirfoddolwyr ag anghenion ychwanegol yn eu hwynebu, gan gynnwys y dull gwerthu â llaw. Mae gwrandio ar brofiadau o lygad y ffynnon yn hanfodol i sicrhau bod sylw yn cael ei roi i'r heriau perthnasol.

2

Cam 2

Defnyddio arbenigedd partner drwy siarad ag arbenigwyr yng Ngholeg Gwent i gael dealltwriaeth glir o sut gallai system Pwynt Gwerthu fod o fudd i anghenion penodol yr ymddiriedolaeth.

3

Cam 3

Datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer pob gwirfoddolwr ond hefyd yn addasu hwn ar gyfer gwirfoddolwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn caniatáu i'r holl wirfoddolwyr fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg newydd ac yn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu ei defnyddio'n gysurus.

“Mae'r holl wirfoddolwyr pan ofynnwyd iddynt wedi dweud ei fod yn gwneud y broses werthu'n llawer haws a'u bod yn teimlo'n fwy proffesiynol wrth ddefnyddio'r system. ... Mae'r gwirfoddolwyr ag anghenion ychwanegol yn teimlo'n fwy cyfartal â'r staff yn yr ystafell de ac yn gallu helpu i hyfforddi staff newydd wrth ddefnyddio'r offer, sy'n rhoi hwb mawr i'w hyder.”



f. Dod yn fwy cynhwysol i ymwelwyr heb lawer o symudedd Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd

Llanelli, Sir Gaerfyrddin

Catalydd
Catalyst Cymru



llanellirgst@gmail.com



llanellirailwaygoodsshedtrust.org/

Gosod rampiau mynediad ac offer newydd i wella hygyrchedd a llwybr dianc brys

DISGRIFIAD HER LLAWN

Nod Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli (LRGST) yw cynyddu nifer yr ymwelwyr, yn enwedig ymhlith y rheini â phroblemau symudedd, defnyddwyr cadair olwyn, a rhieni â chadeiriau gwthio.

Byddai hyn yn ehangu eu cynulleidfa ac yn annog dysgu am dreftadaeth leol.

Gwnaethant nodi'r angen am hygyrchedd gwell drwy ymgynghoriadau â'r gymuned leol ac adborth gan ymwelwyr.

Eu nod oedd cael gwared â'r rhwystrau mynediad a gwella diogelwch ymwelwyr drwy roi proses gadael mewn argyfwng well ar waith. Gwnaeth y cyllid grant ganiatáu iddynt brynu ramp cadair olwyn, cadair gadael mewn argyfwng, a hyfforddiant i staff ar sut i weithio'r cyfarpar yn effeithiol.

HERIAU

- Gwella hygyrchedd a gallu i ddianc i bobl â phroblemau symudedd
- Gwella mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phramiau
- Bod yn bragmatig wrth wynebu amgylchiadau esgusodol ynghylch gosod offer

ATEBION

Defnyddiodd tîm LRGST 3 phrif ddull o oresgyn eu heriau.



**Hyfforddiant
Effeithiol**



**Adborth
Ymwelwyr**



**Cyrchu
Gwybodus**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Hyfforddiant effeithiol: Roedd ymgysylltu â'r gymuned leol yn hanfodol i bennu anghenion hygyrchedd y rheini â phroblemau symudedd a theuluoedd sy'n defnyddio cadeiriau gwthio. Roedd yn rhaid iddynt fynd i'r afael â'r anghenion a oedd yn berthnasol i'w cynulleidfa darged.

2

Cam 2

Defnyddio rhwydwaith proffesiynol o arbenigwyr o brosiectau eraill a chydweithredwyr i sicrhau bod y cyflenwyr cyfarpar gorau posibl yn cael eu defnyddio. Ehangodd hyn i ddatblygu cynllun hyfforddi effeithiol i wirfoddolwyr fel eu bod nhw'n gallu defnyddio'r cyfarpar hwn yn hyderus gydag aelodau'r gymuned

3

Cam 3

Datblygu marchnata i sicrhau bod y gymuned leol yn llawn ymwybodol o'r gwelliannau a wnaed gan yr LRGST. Roedd hyn yn cynnwys cylchlythyrau yn ogystal â digwyddiad dathlu cymunedol.

“Gan fod [y ramp] yn gludadwy, byddwn yn ei ddefnyddio i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn/gwthio allu mynd i mewn i'r cerbyd trên a drawsnewidiwyd, sy'n rhan o'r caffi ar y safle, a byddwn ni'n parhau i allu ei symud os bydd unrhyw broblemau gyda lifft y platfform. Bydd y ramp yn caniatáu i bobl â phroblemau symudedd gael mynediad at fwy o'n hardal dreftadaeth a chymunedol nag y rhagwelwyd ar y dechrau.”



g. Digwyddiadau treftadaeth aml-genhedlaeth

Canolfan Glowyr Caerffili, "The Miners"

Caerffili



✉ secretary@caerphillyminerscentre.org.uk

🌐 www.caerphillyminerscentre.co.uk

Dewch i ddathlu 100 mlynedd ers sefydlu "The Miners" gyda thri grŵp cymunedol cwbl wahanol

DISGRIFIAD HER LLAWN

Dechreuodd "The Miners", fel yr hoffir galw'r ganolfan gymunedol hon yng Nghaerffili, pan brynwyd y safle ym 1924 fel ysbyty i lowyr ac yn ddiweddarach eu teuluoedd.

Cafodd ei rhoi fel rhodd i'r GIG ym 1948. Mae'n agos at galonnau'r gymuned gan fod 75% o'r boblogaeth leol wedi'u geni yno.

I ddathlu hanes dwfn y ganolfan, cynlluniwyd digwyddiad i ddathlu'r canmlwyddiant. Darparodd hwn ar gyfer tri grŵp penodol mewn un diwrnod:

1. Drama ddydd i blant o dan 11 oed a grëwyd mewn partneriaeth â grŵp drama arbenigol.
2. Te Prynawn Cerddorol ar gyfer yr Elderberries presennol, sef grŵp sefydledig o fewn "The Miners."
3. Digwyddiad cerddorol fin nos mewn Eglwys leol lle y perfformiodd dri chôr lleol gyda 500 o bobl yn bresennol.

HERIAU

- Gwasanaethu 3 chynulleidfa hollol wahanol
- Angen lleoliad mawr gyda'r nos
- Adfywio dealltwriaeth o dreftadaeth leol

ATEBION

Defnyddiodd tîm “The Miners” 3 phrif ddull o oresgyn heriau.



**Cynllunio
Ymlaen Llaw**



**Deall
Cynulleidfaoedd**



**Partneriaid
Lleol**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Cynllunio ymlaen llaw: Roedd ymgynghori â grwpiau cymunedol lleol yn hanfodol i sicrhau bod y digwyddiad yn berthnasol i'r holl gymuned. Dangosodd yr ymgynghoriad bod angen i'r digwyddiad ddarparu ar gyfer grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol ar wahanol adegau o'r dydd.

2

Cam 2

Defnyddio rhwydweithiau lleol i gael y gofod ychwanegol oedd ei angen ar gyfer y digwyddiad nos. Cafodd hwn ei gefnogi'n dda gan eglwys leol yn ogystal â chôr a grwpiau drama lleol. Gwnaeth hyn, yn amlwg, ehangu'r cynulleidfaoedd a oedd yno hefyd, ynghyd â datblygu cydberthnasau a phartneriaethau proffesiynol sy'n debygol o gael eu datblygu ymhellach yn y dyfodol.

3

Cam 3

Adnabod anghenion ychwanegol oedd eu hangen i'r digwyddiad fod yn llwyddiannus, fel buddsoddi mewn offer clyweled ar gyfer y digwyddiadau. Bu hyn yn bosibl drwy grantiau bach lleol - roedd gwybodaeth am y grantiau hyn yn fuddiol iawn.

“Mae'n hawdd iawn anadlu bywyd i mewn i'r adeilad ac anghofio mai ein hamcanion yw dathlu ein treftadaeth gymdeithasol. Fodd bynnag, etifeddiaeth yr adeilad yw'r hyn a fydd yn cadw'r Miners yn gynaliadwy. Rydym wedi bod yn ffodus i allu adeiladu ar ewyllys da'r gymuned sy'n gwerthfawrogi ein bod wedi 'achub' yr adeilad rhag cael ei ddymchwel. Bydd hyn dim ond yn para os byddwn yn cadw'r stori'n fyw.”



h. Ymgysylltu trwy daith addysgol

Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

Caerdydd



✉ <https://www.jhasw.com/contact-us>

🌐 <https://www.jhasw.com/>

Arddangosfa deithiol a sgysiau ar draws saith hyb cymunedol a llyfrgelloedd yn Ne Cymru

DISGRIFIAD HER LLAWN

Gwnaeth David Cohen, Cydlynnydd Prosiect Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (JHASW), arwain ymdrechion i hyrwyddo treftadaeth Iddewig Gymreig. Cyflawnwyd hyn drwy arddangosfa deithiol a sgysiau â chymunedau ledled De Cymru.

Gwyddai fod galw am gyflwyniadau addysgol oherwydd digwyddiadau cynharach cyn Covid-19 ac ymateb positif gan fwy na 17 o leoliadau.

Gwnaeth JHASW ddangos parodrwydd o'r cychwyn cyntaf i ychwanegu eu cyllid cyfatebol eu hunain at y buddsoddiad gan grant Catalydd Cymru, a oedd yn dangos ymrwymiad eithriadol.

Talodd y cyllid cyfunol am faneri arddangos, creu sgysiau, deunyddiau hyrwyddo, a chostau staff.

HERIAU

- Herio safbwyntiau gwrth-semitaidd
- Dangos cyfraniad i'r Gymdeithas Gymraeg
- Cydlynu logisteg a sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda lleoliadau

ATEBION

Defnyddiodd tîm “JHASW” 3 phrif ddull o oresgyn heriau.



**Cyllid
Cyfatebol**



**Fformat sioe
deithiol**



**Cyflwyno'n
Dda**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Cyllid cyfatebol: Sylweddolwyd faint o alw oedd yno ar ôl digwyddiad llwyddiannus yn 2019. Gwnaeth 17 o'r 23 o leoliadau y cysylltwyd â nhw ddangos diddordeb mewn cynnal digwyddiad addysgol tebyg.

2

Cam 2

Fformat y sioe deithiol: Er mwyn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl, gwnaethant nid yn unig gynnal sgysiau byw; gwnaethant hefyd adael deunyddiau ar bob safle i ymwelwyr eu defnyddio yn ôl yr angen, a gwnaeth hyn ehangu eu cynulleidfa'n fawr.

3

Cam 3

Cyflwyno'n dda: Gan mai digwyddiad dysgu teithiol oedd hwn, roedd cyfathrebu effeithiol yn bwysig tu hwnt ac roedd yn rhaid ei ddatblygu i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cyrraedd ym mhob senario a lefel o gydweithredu. Cafwyd adborth gan ymwelwyr drwy holiadur i arwain gwaith cymunedol pellach gan JHASW.

“Trwy arddangosfeydd a sgysiau, gwnaethon ni ymhél â chwe chymuned nad oedden ni wedi gweithio gyda nhw o'r blaen. Mae'r rheini a aeth i'r arddangosfeydd a/neu a wrandawodd ar y sgwrs yn bersonol neu ar-lein wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dreftadaeth Iddewig yn Ne Cymru a chyfraniad cymunedau Iddewig at gymdeithas Gymreig.”



i. Gwella hygyrchedd gwefan

Tir Coed

Aberystwyth, Ceredigion



✉ <https://tircoed.org.uk/contact>

🌐 <https://tircoed.org.uk>

Gwella seilwaith digidol a hygyrchedd trwy gynadledda rithwir newydd a gwefan well

DISGRIFIAD HER LLAWN

Cododd yr angen am newid pan gydnabu Tir Coed bod y dirwedd waith wedi newid ar ôl Covid-19 a sylweddoli pa mor bwysig oedd hi i wella'r seilwaith digidol.

Roedd mantais amlwg dros ddefnyddio system gynadledda rithwir i hwyluso cyfarfodydd mewnol effeithlon a chyfathrebiadau â phartneriaid.

Ei nod oedd goresgyn rhwystrau i gydweithredu ar-lein.

Gwnaeth gwella hygyrchedd y wefan adlewyrchu ymrwymiad Tir Coed i gynhwysiant gan sicrhau bod ei adnoddau ar-lein yn hygyrch i unigolion ag anableddau.

Mae Emma Harris, Rheolwr Prosiect Tir Coed, yn bwriadu defnyddio arolygon a dadansoddeg y wefan i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r defnydd a bod y meysydd i'w gwella wedi'u deall yn llwyr wrth symud ymlaen.

HERIAU

- Sicrhau bod ymrwymadau Tir Coed i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hadlewyrchu ar y wefan
- Llywio cyrchu a defnyddio technoleg newydd
- Cyfathrebu effeithiol gyda rhanddeiliaid

ATEBION

Defnyddiodd tîm Tir Coed 3 phrif ddull o oresgyn heriau.



Technoleg
Newydd



Deall
Cynulleidfaoedd



Cyrchu
Gwybodus

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Trwy fyfyrion gyson, gwelwyd angen yn dod i'r amlwg am ddatblygu dulliau cyfathrebu er mwyn cyd-fynd â'r duedd i weithio o bell ar ôl Covid-19.

2

Cam 2

Defnyddio adnodd Gwerthuso Hygyrchedd WAVE er mwyn diwallu anghenion y rheini ag anghenion ychwanegol yn well, gan gynnwys y rheini â nam ar y golwg. Cafodd y wefan ei gwella gyda lliwiau cyferbyniol a thrwy ychwanegu map o'r wefan sy'n rhoi trosolwg i ddefnyddwyr o strwythur y wefan, gan ei gwneud hi'n haws iddynt lywio'r safle a dod o hyd i'r wybodaeth y maen nhw'n chwilio amdani.

3

Cam 3

Mae tîm Tir Coed yn sicrhau bod y gwaith rhagarweiniol hwn yn parhau i ddatblygu ac mae'r gwaith mesur drwy holiaduron defnyddwyr a dadansoddeg ar-lein yn arwain hyfforddiant parhaus a datblygiad adnoddau hygyrch ar y we.

“Y peth pwysicaf y gwnaethom ni ei ddysgu yn ystod y prosiect hwn oedd bod cynnal hygyrchedd y we yn gofyn am brofi a monitro parhaus i sicrhau bod cynnwys a nodweddion newydd yn parhau i fod yn hygyrch dros amser. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi'r cam cyntaf i ni tuag at gynnal hygyrchedd y we dros amser.”



j. Gwella hygyrchedd y ganolfan

Ymddiriedolaeth y Wilderness

Llanidloes, Powys



**The Wilderness
Trust**



info@thewildernesstrust.org



<http://thewildernesstrust.org/>

Cwblhau ramp i wella mynediad i Ganolfan yr Ardd Grog

DISGRIFIAD HER LLAWN

Mae Ymddiriedolaeth y Wilderness yn credu pan fydd pobl yn gwneud cysylltiadau dyfnach â'r byd naturiol, mae'n cynyddu eu hymdeimlad o les a'u hawydd i ofalu am ein hamgylchedd.

Er mwyn cynyddu'r cynhwysiant, roedd yr Ymddiriedolaeth eisiau gosod ramp hygyrchedd yn eu canolfan a fyddai, yn syml, yn rhoi mynediad i ymwelwyr ag anableddau a chadeiriau gwthio a phramiau plant.

Roedd Rachel Evans, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ymddiriedolaeth y Wilderness, wedi ymchwilio'r angen i fuddsoddi yn y ramp hwn, gydag ymwelwyr y safle yn uniongyrchol a thrwy arsylwi.

Mae'r angen am ramp sy'n cydymffurfio â rheoliadau lechyd a Diogelwch nid yn unig o fudd i'r ymwelydd anabl ond hefyd i'w ofalwr sy'n cael ei rymuso i'w ddefnyddio'n ddiogel.

HERIAU

- Anhawster cael mynediad i'r ganolfan - diffyg ramp anabledd sy'n cydymffurfio
- Gwneud achos ariannol clir ar gyfer y ramp
- Yn dangos angen gydag ymchwil glir

ATEBION

Defnyddiodd tîm Ymddiriedolaeth y Wilderness 3 phrif ddull o oresgyn heriau.



**Adborth
Ymwelwyr**



**Addasu'r
Mynediad**



**Agwedd
"Gallwn Ni"**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Fel llawer o fudiadau, roedd Ymddiriedolaeth y Wilderness yn wynebu galwadau cystadleuol am weithredu. Y cam cyntaf y gwnaethant ei gymryd oedd blaenoriaethu angen pwysicaf yr ymwelwyr roeddent yn eu gwasanaethu drwy broses adborth ymwelwyr.

2

Cam 2

Cam Dau oedd arsylwi'n fanwl ar y problemau yr oedd ymwelwyr yn eu cael wrth ddod i mewn i'r safle. Dangosodd y broses hon nad defnyddwyr cadeiriau olwyn yn unig oedd yn cael problemau; roedd pobl ag anableddau eraill, yr henoed, a theuluoedd â chadeiriau gwthio a phramiau hefyd yn cael problemau.

3

Cam 3

Roedd yn rhaid i'r ramp newydd fodloni gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Felly ymdrechodd y tîm i sicrhau bod y ramp a ddewiswyd ganddynt yn cydymffurfio. Gwnaeth hyn alluogi gofalwyr i'w ddefnyddio'n hyderus.

"Mae hyn wedi bod yn gam pwysig; ni yw'r unig gaffi yn y dref â mynediad i bobl anabl, felly mae pobl ag anableddau yn defnyddio ein safle'n gyson. Rydym yn rhedeg tri grŵp yn arbennig ar gyfer pobl anabl o'r Ganolfan yn rheolaidd - mae gan ddau ohonynt aelodau mewn cadeiriau olwyn sydd bellach wedi gallu cael mynediad i'r cyfleusterau newydd."



k. Arddangosfa goffa ac addysgol

Clwb Chwaraeon RFC Bryncoch

Bryncoch, Castell-nedd



<https://www.facebook.com/groups/653899150137739/>



<https://bryncoch.rfc.wales/>

Creu arddangosfa goffa i arddangos hen Lofa Bryncoch a chofio'r rhai a gollodd eu bywydau mewn trychineb

DISGRIFIAD HER LLAWN

Un o wirfoddolwyr a gyrrwr allweddol y prosiect hwn gan glwb chwaraeon RFC Bryncoch, Castell-nedd oedd y diweddar Triv Thomas, a hunodd yn drist iawn cyn i'r llyfr gwaith hwn gael ei gwblhau.

Y cynllun gwreiddiol oedd am ardd goffa i gofio a dathlu pwll glo Bryncoch a'r rhai a gollodd eu bywydau'n druenus mewn trychineb. Trwy weithio'n helaeth gyda Catalydd Cymru i ddeall sut i ymgysylltu'n well â'r gymuned leol, cafodd newidiadau eu gwneud i'r cynllun gardd goffa gwreiddiol.

Y cynllun newydd oedd gweithio gydag archifydd lleol i greu arddangosfa barhaol yn y clwb a oedd yn egluro hanes yr hen bwll glo ar y safle ac yn darparu cofnod parhaol a chofeb.

HERIAU

- Beth oedd y ffordd orau o gadw atgofion Glofa Bryncoch yn fyw
- Sut i ymgysylltu'n ystyrlon â gwahanol grwpiau oedran yn y gymuned leol

ATEBION

Defnyddiodd tîm RFC Bryncoch dri phrif ddull o oresgyn eu heriau



**Cais am
Gymorth**



**Ymgysylltu â
Phobl Ifanc**



**Meddwl yn
greadigol**

CAMAU A GYMERWYD

1

Cam 1

Sefydlodd RFC Bryncoch dîm curadurol a oedd yn gyfrifol am y prosiect. Nododd y rhain gynulleidfaoedd posibl o fewn y gymuned a, chan weithio o'r adborth gan y gymuned honno, crëwyd yr arddangosfa fwyaf diddorol.

2

Cam 2

Trwy hyfforddiant Catalydd Cymru, datblygodd y tîm stori ddiddorol fel sail ar gyfer eu harddangosfa. Roedd gan y stori themâu allweddol, llinellau amser, a llinynnau stori a ddefnyddiwyd i dynnu sylw ati fel arddangosfa broffesiynol.

3

Cam 3

Ymgysylltwyd ag archifydd lleol i sicrhau bod enwau'r holl rai a gollodd eu bywydau yn y trychineb pwll glo yn cael eu cofio yn yr arddangosfa. Gwnaeth hyn ganiatáu i'r prosiect uniaethu â'r gymuned leol a theuluoedd drwy hanes a rennir.

“Trwy waith caled Triv Thomas, bu modd trosglwyddo hanes pwysig y gymuned i genedlaethau'r dyfodol. Roedd ei farwolaeth yn newyddion trist i bawb yn nhîm CGGC. Bydd Triv wastad yn arwr i'r lliaws o wirfoddolwyr sy'n gweithio i wella eu cymunedau.”



3.0. Pethau a weithiodd a datrysiadau poblogaidd

Gofod a fenthycwyd:



Gallai sefydlu partneriaethau â mudiadau lleol gynnig gofod ychwanegol os oedd angen. Gallai hyn fod o fudd i'r ddau fudiad ac o bosibl tanio cydweithrediadau yn y dyfodol.

c. Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn, g. Canolfan Glowyr Caerffili

Arbenigedd Partner:



Gall nodi a chydweithio ag arbenigwyr fel EYST sydd â phrofiad yn y maes dymunol arwain at ganlyniadau mwy effeithiol a chynaliadwy.

c. Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn, d. Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Agwedd "Gallwn Ni":



Os yw'r cynlluniau cyntaf yn methu, gall ailfeddwl y dull gweithredu a dod o hyd i ddatrysiadau eraill gadw prosiectau ar y trywydd iawn. Dylai'r agwedd hon o fynd ati'n rhagweithiol i ddatrys problemau gael ei hymwreiddio yn niwylliant y mudiad.

c. Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn, j. Ymddiriedolaeth y Wilderness

Technoleg Newydd:



Gall rhoi technolegau neu systemau newydd ar waith a rhoi hyfforddiant digonol i staff arnynt symleiddio gweithrediadau ac felly gwella ymgysylltiad gwirfoddolwyr. Gall asesu eich gosodiad presennol a nodi meysydd i'w gwella sicrhau bod y mudiad a'r staff yn cael y canlyniadau gorau.

e. Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni, i. Tir Coed

Hyfforddiant Effeithiol:



Gall ymgynghori â staff a gwirfoddolwyr ar eu hanghenion sicrhau bod yr hyfforddiant cywir yn digwydd ar gyfer y mudiad. Bydd hyn yn helpu pob gwirfoddolwr i deimlo'n hyderus ac yn abl yn eu rolau. Mae hyfforddiant a chymorth perthnasol yn sicrhau bod yr holl wirfoddolwr yn hyderus ac yn abl yn eu rolau.

f. Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli

3.0. Pethau a weithiodd a datrysiadau poblogaidd (parhad)

Adborth Ymwelwyr:



Gall sefydlu mecanweithiau ar gyfer casglu adborth, fel defnyddio gwefannau arolygon am ddim fel Microsoft Forms neu Survey Monkey, a chael blwch awgrymiadau ar y safle helpu i ddeall profiad eich cynulleidfa. Fodd bynnag, rhaid gweithredu ar yr adborth hwn lle bynnag y bo modd er mwyn gwella boddhad ac ymgysylltiad ymwelwyr. Gallai trefnu amser gyda'ch tîm i edrych ar yr adborth a dechrau meddwl sut y gellid ei ddefnyddio eich helpu i adnabod themâu neu awgrymiadau cyffredin sy'n codi o adborth.

f. Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli, a. Ymddiriedolaeth St John's House

Cyrchu Gwybodus:



Mae cyrchu effeithiol yn golygu defnyddio rhwydweithiau proffesiynol i nodi'r cyflenwyr a'r adnoddau gorau. Dylai mudiadau ymgysylltu ag arbenigwyr y diwydiant a rhanddeiliaid â phrosiectau neu anghenion tebyg i gasglu argymhellion a mewnwelediadau. Mae hyn yn sicrhau bod y deunyddiau a'r gwasanaethau a gyrchir o ansawdd uchel ac yn diwallu anghenion penodol y prosiect.

f. Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli, i. Tir Coed

Cynllunio Ymlaen Llaw:



Gall cynllunio ymlaen llaw a pharatoi'n fanwl ar gyfer digwyddiad neu brosiect wella'r canlyniad terfynol yn fawr. Efallai yr hoffai mudiadau gynnal ymgynghoriadau neu arolygon gyda'r rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion a'u hoffterau. Bydd hyn yn caniatáu i chi ddiwallu'r anghenion hyn, goresgyn rhwystrau gyda manylion mewn golwg, a gobeithio, gwella profiad eich cynulleidfa.

g. Canolfan Glowyr Caerffili

Partneriaid Lleol:



Gall adeiladu cydberthnasau â busnesau lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol ddarparu cymorth ac adnoddau ychwanegol. Gall y partneriaethau hyn hefyd wella cyrhaeddiad ac effaith prosiectau'r mudiad gan y byddant yn dod â'u cynulleidfaoedd eu hunain.

c. Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn, g. Canolfan Glowyr Caerffili

3.0. Pethau a weithiodd a datrysiadau poblogaidd (parhad)

Gwerth+ i Aelodau:



Gall mudiadau gynyddu ymgysylltiad aelodau drwy gynnig cynnwys unigryw a gwerthfawr drwy blatfformau hawdd eu defnyddio. Gall diweddarau cynnwys yn rheolaidd ac ymgorffori adborth gynnal diddordeb a chefnogaeth gan aelodau.

d. Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Cyllid Cyfatebol:



Er na all hyn fod yn bosibl i bob mudiad, gall mudiadau ddenu cyllid ychwanegol drwy baru grantiau â'u hadnoddau cyfatebol eu hunain. Mae hyn yn dangos ymroddiad y mudiad i gyllidwyr, ynghyd a'i allu i godi arian yn effeithiol.

h. Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

Fformat sioe deithiol:



Gall defnyddio fformat sioe deithiol fel y gwnaeth Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru ehangu cyrhaeddiad mudiad. Gall digwyddiadau ac arddangosfeydd teithiol i leoliadau amrywiol ennyn diddordeb cynulleidfaoedd amrywiol a chynyddu gwelededd. Mae cyfathrebu effeithiol â lleoliadau yn allweddol i lwyddiant mentrau o'r fath.

h. Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

Addasu'r Mynediad:



Mae gofod hygyrch yn dangos i'ch cynulleidfa eich bod yn grŵp cynhwysol, nid dim ond i'r rheini sydd angen addasiadau. Dylai mudiadau asesu eu cyfleusterau o ran hygyrchedd a gwneud addasiadau angenrheidiol, fel gosod rampiau neu arwyddion hygyrch. Ceisiwch ystyried pob angen, gan gynnwys anabledau anweladwy neu gyflyrau fel y rheini sy'n niwroamrywiol. Mae diwallu'r anghenion hyn a chydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch yn gwella'r profiad i'r holl ymwelwyr, gan gynnwys y rheini ag anabledau. Mae rhannu profiadau ar lafar yn ffordd wych o ehangu eich cynulleidfa a bydd ymwelwyr yn rhannu gyda'u ffrindiau neu deulu os yw rhywle yn diwallu eu hanghenion.

j. Ymddiriedolaeth y Wilderness

3.0. Pethau a weithiodd a datrysiadau poblogaidd (parhad)

Meddwl yn greadigol:



Dylai mudiadau annog gweithdai sy'n edrych y tu allan i'r bocs am ddatrysiadau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw heriau unigryw. Gall rhoi syniadau creadigol ar waith fel ffrydiau fideo byw ar gyfer ardaloedd na ellir eu cyrraedd wella profiadau ymwelwyr heb beryglu treftadaeth y safle. Gall annog amrywiaeth eang o syniadau gan wirfoddolwyr neu ymwelwyr wella eu profiad o deimlo'n werthfawr a'u bod yn rhan o'r tîm.

a. Ymddiriedolaeth St John's House, k. RFC Bryncoch

Cais am Gymorth:



Dylai mudiadau fynd ati'n ddi-oed i ofyn am gymorth gan arbenigwyr ac aelodau'r gymuned. Gall ymgysylltu ag unigolion gwybodus gynnig mewnwelediadau ac adnoddau newydd sy'n gwella llwyddiant y prosiect.

k. RFC Bryncoch

Ymgysylltu â Phobl Ifanc:



Gall mudiadau greu rhaglenni ac arddangosfeydd y mae pobl ifanc yn gallu uniaethu â nhw, gan gynnwys elfennau rhyngweithiol ac addysgol. Gall cydweithio ag ysgolion a grwpiau ieuenctid wella'r ymgysylltiad a'r cyfranogiad ymhellach. Gall hyn ennyn diddordeb rhywun ifanc i gymryd rhan neu wirfoddoli, gan ddod â llygaid ffres i'ch mudiad.

k. RFC Bryncoch, b. Circus Eruption

Adborth Gwirfoddolwyr:



Mae cynnwys adborth gwirfoddolwyr yn hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus. Gall mudiadau sefydlu dull rhoi adborth rheolaidd fel arolygon dienw a chyfarfodydd personol i gasglu mewnwelediadau gan wirfoddolwyr. Gall mynd i'r afael â'u pryderon a'u hawgrymiadau arwain at brofiadau gwirfoddoli mwy effeithiol a boddhaol.

e. Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni

3.0. Pethau a weithiodd a datrysiadau poblogaidd (parhad)

Deall Cynulleidfaoedd



Mae deall y gynulleidfa darged yn allweddol i ddylunio prosiectau perthnasol ac effeithiol. Mae cynnal ymchwil trylwyr ac ymgynghoriadau â'r gymuned yn helpu i deilwra rhaglenni i ddiwallu eu hanghenion a'u hoffterau penodol. Gall y dull hwn arwain at gyfraddau ymgysylltu a llwyddo uwch.

g. Canolfan Glowyr Caerffili, i. Tir Coed

Cyflwyno'n Dda:



Mae cyflwyniad effeithiol yn hanfodol i gael cymorth ac ymgysylltiad. Efallai y bydd mudiadau eisiau buddsoddi mewn deunyddiau hyrwyddo a chyflwyniadau o ansawdd uchel sy'n cyfathrebu eu nodau a'u heffaith yn glir. Gall ymarfer a mireinio'r cyflwyniadau hyn wella eu heffeithiolrwydd o ran denu cyllid a chefnogaeth. Gall gadael deunyddiau ar ôl digwyddiadau neu sgysrsiau ymestyn eich cyrhaeddiad ymhellach gan na fydd wedi'i gyfyngu i'r rheini a oedd yn bresennol.

h. Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru, b. Circus Eruption

4.0. Eich Cynllun Her

Yn yr adran hon o'r pecyn cymorth fe welwch:

4.1. Sy'n dangos i chi sut i ddefnyddio'r cynllun her yn effeithiol.

4.2. Rhai cynlluniau her gwag (rhannau I, II, a III) y gallwch chi eu defnyddio ar brosiectau presennol neu brosiectau i ddod. Rydym wedi darparu dau gopi o'r rhain er hwylustod i chi.

4.3. Mae hwn yn ymdrin ag atebolrwydd fel ffordd o lwyddo ar brosiectau. Mae hwn hefyd yn cynnwys ffurflen addewid atebolrwydd. Mae hon i aelodau unigol y tîm ei llofnodi i ddangos eu hymrwymiad i'r dasg neu'r tasgau y maen nhw'n ymgymryd â nhw, ynghyd â dangos eu bod yn deall y tasgau hyn. Gellir hefyd ei wneud fel tîm wrth gwrs.



4.1. Sut i ddefnyddio eich Cynllun Her



Mae'r templed cryno hwn wedi'i gynllunio i arwain mudiadau cymunedol wrth gynllunio a gweithredu prosiectau sy'n seiliedig ar her gyda chynhwysiant wrth eu craidd. Trwy ddilyn y nodiadau hyn, gallwch sicrhau dull strwythuredig sy'n cael cymaint â phosibl o effaith ac yn meithrin ymgysylltiad cymunedol.

Enw'r Prosiect

- Dewiswch enw clir, disgrifiadol sy'n adlewyrchu hanfod eich prosiect.
- Sicrhewch ei fod yn gofiadwy a bod eich cymuned a'ch rhanddeiliaid yn gallu uniaethu ag ef.
- Sicrhewch ei fod yn gryno ac yn disgrifio'r broblem neu'r cyfle yn gywir.

Dyddiadau Dechrau a Diwedd

- Nodwch y dyddiad y bydd eich prosiect yn dechrau.
- Ystyriwch unrhyw waith paratoadol y bydd angen ei wneud cyn iddo ddechrau'n swyddogol.
- Diffiniwch ddyddiad cwblhau realistig.
- Caniatewch am oediadau posibl a sicrhewch ei fod yn cyd-fynd â nodau eich prosiect.

Aelodau'r Tîm

- Rhestrwch holl aelodau'r tîm sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Cofiwch gynnwys y rolau a'r cyfrifoldebau i sicrhau eglurder ac atebolrwydd.
- Amlygwch unrhyw sgiliau neu arbenigedd perthnasol.

Amcanion a Buddion gwneud yr Her hon

- Nodwch brif amcanion eich prosiect yn glir.
- Nodwch y buddion a ragwelir i'ch cymuned a sut y bydd cynhwysiant yn cael ei hyrwyddo.
- Ystyriwch yr effeithiau byrdymor a hirdymor.

Adnoddau (Beth sydd ei angen arnom)

- Rhestrwch yr holl adnoddau sydd eu hangen gan gynnwys cyllid, deunyddiau, ac adnoddau dynol.
- Nodwch unrhyw bartneriaethau neu gymorth allanol sydd eu hangen.
- Byddwch yn benodol ynghylch meintiau ac amserlenni ar gyfer cael gafael ar yr adnoddau hyn.

Proses a Cherrig Milltir

- Disgrifiwch y broses gam wrth gam i gyflawni eich amcanion.
- Amlinellwch gerrig milltir allweddol a dyddiadau cau er mwyn olrhain cynnydd.
- Sicrhewch fod gan bob carreg filltir gyflawniadau a chyfrifoldebau clir.

Asesiad (Lefel Llwyddiant, Heriau a Gwersi i Eraill)

- Diffiniwch y meini prawf ar gyfer asesu llwyddiant eich prosiect.
- Myfyriwch ar yr heriau a wynebwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw.
- Nodwch y pethau a ddysgwyd i'w rhannu gyda mudiadau cymunedol eraill er eu budd nhw.

4.2.Eich Cynllun Her I

Dyddiad dechrau

Dyddiad diwedd

Enw'r her

Aelodau a rolau'r tîm

Amcanion ar gyfer gwneud yr her hon - nodwch y 3 uchaf: 1. 2. 3.

1.

2.

3.

4.2.Eich Cynllun Her II

Adnoddau (beth sydd ei angen arnom)

1	
2	
3	
4	
5	
6	
7	
8	

Proses a cherrig milltir (gyda dyddiadau)

1	--/~/--
2	--/~/--
3	--/~/--
4	--/~/--
5	--/~/--
6	--/~/--
7	--/~/--
8	--/~/--

4.2.Eich Cynllun Her III

Aesu (Lefel llwyddiant, heriau a dysgu i eraill)

Rhestrwch eich llwyddiannau

1

2

3

Rhestrwch eich heriau

1

2

3

Rhestrwch wersi i eraill

1

2

3

4.2.Eich Cynllun Her I

Dyddiad dechrau

Dyddiad diwedd

Enw'r her

Aelodau a rolau'r tîm

Amcanion ar gyfer gwneud yr her hon - nodwch y 3 uchaf: 1. 2. 3.

1.

2.

3.

4.2.Eich Cynllun Her II

Adnoddau (beth sydd ei angen arnom)

1	
2	
3	
4	
5	
6	
7	
8	

Proses a cherrig milltir (gyda dyddiadau)

1	--/~/--
2	--/~/--
3	--/~/--
4	--/~/--
5	--/~/--
6	--/~/--
7	--/~/--
8	--/~/--

4.2.Eich Cynllun Her III

Aseu (Lefel llwyddiant, heriau a dysgu i eraill)

Rhestrwch eich llwyddiannau

1

2

3

Rhestrwch eich heriau

1

2

3

Rhestrwch wersi i eraill

1

2

3

4.3. Gwneud addewid atebolrwydd



Pwysigrwydd atebolrwydd mewn prosiectau cymunedol

Atebolrwydd yw congflaen unrhyw brosiect cymunedol llwyddiannus. Pan rydych chi a'ch tîm yn dwyn eich hun i gyfrif, mae'n sicrhau bod pawb yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau, terfynau amser, a'r canlyniadau a ddisgwylir. Dyma pam mae dwyn eich hunan a'ch tîm i gyfrif yn syniad da:

1. Eglurder a ffocws: Mae rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir yn helpu pob aelod o'r tîm i ddeall ei dasgau penodol a sut mae'n cyfrannu at nodau cyffredinol y prosiect.
2. Mwy o gynhyrchiant: Pan mae pawb yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud ac erbyn pryd mae'n lleihau dryswch ac yn cynyddu effeithlonrwydd, gan arwain at ddefnyddio adnoddau'n well.
3. Cydlyniant tîm gwell: Mae atebolrwydd yn meithrin ymdeimlad o gydgyfrifoldeb a gwaith tîm. Gall gwybod bod pob aelod yn dibynnu ar y lleill gryfhau ymrwymiad y tîm i'r prosiect.
4. Tryloywder a hyder: Mae cadw golwg ar dasgau a cherrig milltir mewn modd agored yn caniatáu mwy o dryloywder o fewn y tîm. Mae hyn yn magu hyder gan fod pawb yn gallu gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud ac yn deall unrhyw heriau sy'n codi.
5. Dysgu a datblygu: Mae dwyn eich hun ac eraill i gyfrif nid yn unig yn gyrru perfformiad ond mae hefyd yn amlygu'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r dysgu parhaus hwn yn helpu'r unigolyn a'r tîm i dyfu'n gryfach ac yn fwy abl.
6. Cydnabyddiaeth a chymhelliant: Gall cydnabod aelodau'r tîm am gyflawni eu hymrwymadau fod yn gymhelliant pwerus. Mae'n atgyfnerthu ymddygiad positif ac yn annog ymroddiad parhaus i'r prosiect.

I'ch helpu chi a'ch tîm i aros yn atebol, rydym wedi darparu ffurflen addewid atebolrwydd isod (5 copi ar gyfer eich tîm). Dylid llenwi'r ffurflen hon gydag enw'r sawl sy'n gyfrifol am bob tasg, disgrifiad o'r dasg, y terfynau amser a'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt, a lle ar gyfer enw'r unigolyn, llofnod a dyddiad. Bydd hyn nid yn unig yn olrhain cynnydd ond hefyd yn ffurfioli ymrwymadau, gan sicrhau bod pawb yn gwybod eu cyfrifoldebau a'r amserlen ar gyfer cwblhau.

Templed Addewid Atebolrwydd

Enw'r prosiect:

Tasg:

Dyddiad dechrau'r dasg __/__/__

Dyddiad diwedd y dasg __/__/__

Cerrig milltir allweddol y dasg

1.

__/__/__

2.

__/__/__

3.

__/__/__

Rwy'n cytuno i fod yn atebol am gyflawni'r dasg a ddisgrifir uchod hyd eithaf fy ngallu.

Unigolyn cyfrifol:

Llofnod y sawl sy'n atebol:

Dyddiad llofnodi __/__/__

Templed Addewid Atebolrwydd

Enw'r prosiect:

Tasg:

Dyddiad dechrau'r dasg __/__/__

Dyddiad diwedd y dasg __/__/__

Cerrig milltir allweddol y dasg

1.

__/__/__

2.

__/__/__

3.

__/__/__

Rwy'n cytuno i fod yn atebol am gyflawni'r dasg a ddisgrifir uchod hyd eithaf fy ngallu.

Unigolyn cyfrifol:

Llofnod y sawl sy'n atebol:

Dyddiad llofnodi __/__/__

Templed Addewid Atebolrwydd

Enw'r prosiect:

Tasg:

Dyddiad dechrau'r dasg __/__/__

Dyddiad diwedd y dasg __/__/__

Cerrig milltir allweddol y dasg

1.

__/__/__

2.

__/__/__

3.

__/__/__

Rwy'n cytuno i fod yn atebol am gyflawni'r dasg a ddisgrifir uchod hyd eithaf fy ngallu.

Unigolyn cyfrifol:

Llofnod y sawl sy'n atebol:

Dyddiad llofnodi __/__/__

Templed Addewid Atebolrwydd

Enw'r prosiect:

Tasg:

Dyddiad dechrau'r dasg __/__/__

Dyddiad diwedd y dasg __/__/__

Cerrig milltir allweddol y dasg

1.

__/__/__

2.

__/__/__

3.

__/__/__

Rwy'n cytuno i fod yn atebol am gyflawni'r dasg a ddisgrifir uchod hyd eithaf fy ngallu.

Unigolyn cyfrifol:

Llofnod y sawl sy'n atebol:

Dyddiad llofnodi __/__/__

Templed Addewid Atebolrwydd

Enw'r prosiect:

Tasg:

Dyddiad dechrau'r dasg __/__/__

Dyddiad diwedd y dasg __/__/__

Cerrig milltir allweddol y dasg

1.

__/__/__

2.

__/__/__

3.

__/__/__

Rwy'n cytuno i fod yn atebol am gyflawni'r dasg a ddisgrifir uchod hyd eithaf fy ngallu.

Unigolyn cyfrifol:

Llofnod y sawl sy'n atebol:

Dyddiad llofnodi __/__/__

PECYN CYMORTH CATALYDD
CYMRU: EHANGU GORWELION

GWYBODAETH GYSWLLT



0300 111 0124



help@wcva.cymru